Torri addewid

Parchu dymuniadau eraill / Cenfigen

Cnociodd y postmon ar y drws. Rhedodd Tom i'r drws a gwelodd fod gan y postmon lond ei ddwylo o lythyrau a'r cwbl iddo fo. "Diolch" meddai Tom a rhuthrodd i mewn i'r t_. Hwn oedd diwrnod ei ben blwydd. Eisteddodd ar y gadair esmwyth i ddarllen ei gardiau. Daeth ei fam i eistedd wrth ei ochr. "Faint o gardiau wyt ti wedi gael?" gofynnodd. Cyfrodd Tom y cardiau'n sydyn – dau ddeg pedwar ohonyn nhw. Aeth drwyddyn nhw'n sydyn i weld oedd yna gerdyn neu lythyr gan ei daid.

Yn ystod yr haf roedd ei daid wedi addo cael ci iddo. Roedd Tom yn gwybod na fyddai'r ci yn dod drwy'r post ond tybed oedd yna lythyr neu gerdyn gan ei daid i ddweud pa bryd y byddai'r ci yn cyrraedd. Yng nghanol y cardiau gwelodd ysgrifen ei daid. Rhwygodd yr amlen a dechreuodd ddarllen yr ysgrifen ar y cerdyn..

Annwyl Tom.

Pen-blwydd hapus iawn i ti Tom, heddiw.

Roeddwn i'n gwybod dy fod eisiau ci, felly dyma un i ti!!! Mae croeso i ti ddod i aros efo ni dros y Sul.

Nain a Taid xxx

Ond roedd rhywbeth arall yn yr amlen. Ffrâm wydr ac yn y ffrâm roedd llun y ci bach dela welsoch chi erioed. Syrthiodd y ffrâm ar y llawr a thorri'n deilchion. Cododd ei fam y darnau gwydr, "Bydd di'n ofalus Tom, rhag ofn i'r gwydr fynd i dy ddwylo," meddai hi.

"Mi ydw i'n cofio'r llun yma'n iawn. Pan oeddwn i'n eneth fach, rydw i'n cofio'r llun hwn yn fy ystafell wely. Byddwn yn edrych arno bob nos cyn mynd i'r gwely," meddai'i fam wrtho. Ddywedodd Tom ddim gair o'i ben. Roedd bron â chrio. "Oeddet ti'n disgwyl ci go iawn?" gofynnodd ei fam iddo.

"Oedd, mi roedd o'n disgwyl ci go iawn ar ei ben-blwydd" meddai ei frawd bach oedd yn eistedd ar y llawr yn gwylio'r teledu.
"Nag oedd siŵr!" meddai fam. "Mae Tom yn gwybod na fyddai gan taid a nain ddigon o arian i brynu ci go iawn iddo fo."
Aeth ei fam yn ei blaen, "Wyt ti'n gwybod yn iawn nad oes gynno ni ddim digon o le i gadw ci yn yr ardd. A pheth arall mae'r ffordd yma o flaen y tŷ yn beryglus iawn efo'r ceir sy'n mynd yn gyflym ar hyd ddi. Wyt ti'n cofio beth ddigwyddodd i'r gath rai misoedd yn ôl?"
Cofiodd Tom am y diwrnod hwnnw pan gafodd y gath ei lladd ar y ffordd. Edrychodd mam Tom ar y cerdyn pen-blwydd unwaith yn rhagor. "Edrych Tom" meddai "Mae nain a taid eisiau i ti fynd i aros efo nhw dros y Sul. Dyna neis. Beth am i ti fynd wythnos nesaf neu dros wyliau'r Pasg."
Cododd Tom ei ben ac meddai, "Dydw i ddim eisiau mynd yno. Dydw i ddim eisiau gweld nain a taid. Byth! Byth! Dydw i ddim eisiau mynd a dydw i ddim eisiau eu gweld. A dyna fo."

Rydw i'n casau fy hun pan fydda i'n pwdu. O Dduw, wnei di fy helpu i fod yn blentyn sydd byth yn pwdu. Amen.

- Oeddech chi'n credu fod Tom yn siomedig?
- Sut oedd o'n teimlo? Sut oedd o'n ymddwyn?